Cofrestrfa Tir EF

# Cais i gofnodi cyfyngiad

# RX1

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau**.

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

Ni all Cofrestrfa Tir EF roi cyngor cyfreithiol ond mae canllawiau ar geisiadau i Gofrestrfa Tir EF (gan gynnwys ein cyfarwyddiadau ymarfer i drawsgludwyr) ar gael o www.gov.uk/land-registry.

Mae trawsgludwr yn derm a ddefnyddir yn y ffurflen hon. Fe'i diffinnir yn rheol 217A o Reolau Cofrestru Tir 2003 ac mae'n cynnwys unigolion a awdurdodwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol neilltuedig yn ymwneud â chofrestru tir ac mae'n cynnwys cyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

| AR GYFER COFRESTRFA TIR EF YN UNIG |
|---|
| Cofnod o'r ffïoedd a dalwyd |
| Manylion gordaliad/tandaliad |
| Cyfeir-rif<br>Ffïoedd a ddebydwyd £ |

Os yw mwy nag un awdurdod lleol yn gwasanaethu'r ardal, nodwch yr un y byddwch yn talu'r dreth gyngor neu ardrethi busnes iddo fel rheol.

1 Yr awdurdod lleol sy'n gwasanaethu'r eiddo:

2 Rhif(au) teitl yr eiddo:

Rhowch gyfeiriad gan gynnwys cod post (os oes) neu ddisgrifiad arall o'r eiddo, er enghraifft 'tir yn ffinio â 2 Acacia Avenue'.

3 Eiddo:

Rhowch 'X' yn y blwch priodol.

Mae'r cyfyngiad y gwnaed y cais amdano i effeithio ar

☐ yr ystad gofrestredig gyfan

Rhowch ddisgrifiad byr o'r rhan yr effeithir arni, er enghraifft 'gydag amlinelliad coch ar y cynllun atodedig.'

☐ y rhan(rhannau) o'r ystad gofrestredig fel y dangosir:

Cwblhewch fanylion yr arwystl os yw'n briodol.

☐ yr arwystl(on) cofrestredig dyddiedig

o blaid:

4 Cais a ffi

I gael rhagor o wybodaeth am ein ffïoedd gweler www.gov.uk/government/collections/fees-land-registry-guides

| Cais | Ffi a dalwyd (£) |
|---|---|
| Cofnodi cyfyngiad | |

Dull talu'r ffi

Rhowch 'X' yn y blwch priodol.

☐ siec yn daladwy i 'Cofrestrfa Tir'

☐ debyd uniongyrchol, o dan gytundeb gyda'r Gofrestrfa Tir

Codir y ffi i'r cyfrif a nodwyd ym mhanel 7.

| | |
|---|---|
| Rhestrwch y dogfennau a gyflwynwyd gyda'r ffurflen hon. Os daw'r cais hwn gyda naill ai Ffurflen AP1 neu FR1 dylech gwblhau'r panel cyfatebol ar Ffurflen AP1 neu DL yn unig (os caiff ei defnyddio). Mae dogfennau gwreiddiol yn ofynnol dim ond os yw eich cais am gofrestriad cyntaf, lle y byddwn yn dychwelyd y gwreiddiol os darparwyd copi ardystiedig. Os nad yw eich cais am gofrestriad cyntaf, dim ond copïau ardystiedig o weithredoedd neu ddogfennau yr ydych yn eu hanfon atom gyda ffurflenni cais Cofrestrfa Tir EF sydd eu hangen arnom. Unwaith y byddwn wedi gwneud copi o'r dogfennau a anfonir atom, byddwn yn eu dinistrio. Mae hyn yn wir am y gwreiddiol a chopïau ardystiedig. | 5 Dogfennau a gyflwynwyd gyda'r ffurflen hon: |
| Rhowch enw(au) llawn y sawl sy'n gwneud cais i gofnodi'r cyfyngiad. Os yw trawsgludwr yn cyflwyno'r cais, rhaid nodi enw(au) y cleient(iaid), nid y trawsgludwr. | 6 Y ceisydd: |
| Rhaid cwblhau'r panel hwn ar bob adeg.<br><br>Dim ond i gwsmeriaid proffesiynol, fel cyfreithwyr, mae rhif allwedd ar gael.<br><br>Os ydych yn talu trwy ddebyd uniongyrchol, codir y ffi i'r cyfrif hwn.<br><br>Dyma'r cyfeiriad y byddwn yn anfon ymholiadau ato fel rheol. Fodd bynnag os rhowch gyfeiriad ebost, byddwn yn defnyddio hwn lle bynnag y bo'n bosibl.<br>Dim ond os yw cyfeiriad ebost yn cael ei nodi y byddwn yn anfon llythyron rhybudd am ddileu at drawsgludwyr. | 7 Anfonir y cais hwn i'r Gofrestrfa Tir gan<br>Rhif allwedd (os yw'n gymwys):<br>Enw:<br>Cyfeiriad neu rif blwch DX yn y DU:<br><br>Cyfeiriad ebost:<br>Cyfeirnod:<br><br>Rhif ffôn: \| Rhif ffacs: |

Rhaid i chi roi 'X' mewn un blwch yn unig yn y panel hwn. Gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 19 os nad ydych yn siwr p'un i'w ddewis.

Os ydych yn drawsgludwr, mae'r dystysgrif yn ddigonol i gydymffurfio â gofynion Cofrestrfa Tir EF. Os nad oes trawsgludwr yn gweithredu, rhaid i chi amgáu tystiolaeth o hawl y ceisydd i gael ei gofrestru'n berchennog gyda'r cais hwn. Mae'n bosibl y bydd Cofrestrfa Tir EF yn dinistrio dogfennau ar ôl eu sganio.

Rhestrwch unrhyw ddogfennau ategol ym mhanel 5 neu ar Ffurflen AP1 neu DL (os cânt eu defnyddio).

Os ydych yn drawsgludwr, mae'r dystysgrif yn ddigonol i gydymffurfio â gofynion Cofrestrfa Tir EF. Os nad oes trawsgludwr yn gweithredu, rhaid i chi amgáu'r cydsyniad perthnasol gyda'r cais hwn. Mae'n bosibl y bydd Cofrestrfa Tir EF yn dinistrio dogfennau ar ôl eu sganio.

Os ydych yn drawsgludwr, mae'r dystysgrif yn ddigonol i gydymffurfio â gofynion Cofrestrfa Tir EF. Os nad oes trawsgludwr yn gweithredu, rhaid i chi amgáu'r cydsyniad perthnasol a thystiolaeth o hawl i gael eich cofrestru'n berchennog gyda'r cais hwn. Mae'n bosibl y bydd Cofrestrfa Tir EF yn dinistrio dogfennau ar ôl eu sganio.

Rhestrwch unrhyw ddogfennau ategol ym mhanel 5 neu ar Ffurflen AP1 neu DL (os cânt eu defnyddio).

Rhestrwch unrhyw ddogfennau ategol ym mhanel 5 neu ar Ffurflen AP1 neu DL (os cânt eu defnyddio).

8 Mae hawl gan y ceisydd i wneud cais am gyfyngiad oherwydd

**(A) Y ceisydd yw'r perchennog cofrestredig**

☐ Y ceisydd yw perchennog cofrestredig yr ystad/arwystl y cyfeiriwyd ato ym mhanel 3

**(B) Mae hawl gan y ceisydd gael ei gofrestru fel y perchennog**

☐ Daw tystiolaeth o'r hawl honno gyda'r cais hwn

☐ Fel trawsgludwr y ceisydd rwy'n tystio fy mod yn fodlon bod gan y ceisydd yr hawl i'w gofrestru fel perchennog a'm bod yn dal y dogfennau gwreiddiol sy'n cynnwys tystiolaeth o hawl y ceisydd, neu fod cais i gofrestru'r ceisydd fel perchennog yn aros i'w brosesu yn y Gofrestrfa Tir

**(C) Cais yn cael ei wneud gyda chydsyniad y perchennog cofrestredig**

☐ Daw'r cydsyniad perthnasol gyda'r cais hwn

☐ Fel trawsgludwr y ceisydd rwy'n tystio fy mod yn dal y cydsyniad perthnasol

**(Ch) Cais yn cael ei wneud gyda chydsyniad y sawl sydd â'r hawl i gael ei gofrestru fel y perchennog**

☐ Daw'r cydsyniad perthnasol a thystiolaeth o'r hawl honno gyda'r cais hwn

☐ Fel trawsgludwr y ceisydd rwy'n tystio y daw'r cydsyniad perthnasol gyda'r cais hwn.

Hefyd rwy'n tystio fy mod yn fodlon bod gan y sawl sy'n cydsynio i'r cais hwn yr hawl i'w gofrestru fel perchennog a'm bod yn dal y dogfennau gwreiddiol sy'n cynnwys tystiolaeth o'r hawl honno, neu fod cais i gofrestru'r cyfryw unigolyn fel perchennog yn aros i'w brosesu yn y Gofrestrfa Tir

☐ Fel trawsgludwr y ceisydd rwy'n tystio fy mod yn dal y cydsyniad perthnasol.

Hefyd rwy'n tystio fy mod yn fodlon bod gan y sawl sy'n cydsynio i'r cais hwn yr hawl i'w gofrestru fel perchennog a'm bod yn dal y dogfennau gwreiddiol sy'n cynnwys tystiolaeth o'r hawl honno, neu fod cais i gofrestru'r cyfryw unigolyn fel perchennog yn aros i'w brosesu yn y Gofrestrfa Tir

**(D) Tystiolaeth arall i gefnogi hawliad y ceisydd**

Nid yw unrhyw un o'r datganiadau uchod yn gymwys ond mae'r budd digonol canlynol gan y ceisydd mewn cofnodi'r cyfyngiad y gwnaed cais amdano ym mhanel 9

☐ Mae'r ceisydd wedi gwneud y datganiad ym mhanel 12

☐ Fel trawsgludwr y ceisydd rwy'n tystio i fudd y ceisydd ym mhanel 13

| | |
|---|---|
| Rhowch eiriad llawn y cyfyngiad sydd ei angen. Yn achos ffurfiau safonol o gyfyngiad, rhowch lythyren (llythrennau) cyfeirio'r ffurf. Ar gyfer ffurfiau ansafonol o gyfyngiad dilëwch y geiriau yn y cromfachau sgwâr. Mae ffurfiau safonol o gyfyngiad wedi eu hamlinellu yn Atodlen 4 i Reolau Cofrestru Tir 2003. Mae canllawiau pellach i'w cael yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 19.<br><br>Gallwch wneud cais am fwy nag un cyfyngiad gan ddefnyddio'r un ffurflen ar yr amod mai'r un yw'r ceisydd ym mhanel 6 a'r hawl a welir ym mhanel 8 ar gyfer yr holl gyfyngiadau. Os yw'r ceisydd neu'r hawl yn wahanol, rhaid defnyddio ffurflenni ar wahân.<br><br>Rhaid i chi roi geiriad y cyfyngiad yn llawn, oni bai eich bod yn gwneud cais am ffurf safonol o gyfyngiad sydd heb unrhyw gynnwys amrywiol.<br><br>Rhaid i chi gynnwys cyfeiriad(au) ar gyfer gohebu os yw'r ffurf safonol o gyfyngiad yn gofyn i chi roi cyfeiriad neu os yw unrhyw gyfyngiad arall yn gofyn i chi roi cydsyniad neu dystysgrif, neu roi rhybudd i'r cyfyngwr. Gall pob cyfyngwr roi hyd at dri chyfeiriad ar gyfer gohebu, a rhaid i un ohonynt fod yn gyfeiriad post boed yn y DU neu beidio (gan gynnwys cod post, os oes). Gall y cyfeiriadau eraill fod yn unrhyw gyfuniad o gyfeiriad post, rhif blwch DX yn y DU neu gyfeiriad ebost.<br><br>Os yw'r cyfyngiad yn cyfeirio at gwmni cofrestredig neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi'i chorffori unrhyw le yn y Deyrnas Unedig dylech gynnwys y rhif cofrestredig (gan gynnwys unrhyw ragddodiad) ar ôl enw'r cwmni. Yn achos cwmni tramor dylech gynnwys tiriogaeth ei gorffori ac os yw ei fanylion wedi eu cofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau, rhowch y rhif cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. | 9 Mae'r ceisydd yn gwneud cais i gofnodi cyfyngiad [ar ffurf safonol ] yn erbyn yr ystad/arwystl y cyfeiriwyd ato ym mhanel 3 yn y geiriau canlynol: |
| Os yw trawsgludwr yn gweithredu ar ran y ceisydd, rhaid i'r trawsgludwr hwnnw lofnodi. Os nad yw trawsgludwr yn gweithredu, rhaid i'r ceisydd (ac os oes mwy nag un, pob un ohonynt) lofnodi.<br><br>Rhaid i'r trawsgludwr lofnodi os yw wedi rhoi un o'r tystysgrifau y cyfeiriwyd atynt ym mhanel 8. | 10 Llofnod y ceisydd neu'r trawsgludwr: ------------------------<br><br>Dyddiad: |

| | | |
|---|---|---|
| Gweler panel 8. | 11 Rwyf i/Rydym ni yn cydsynio i gofnodi'r cyfyngiad a nodwyd ym mhanel 9 yn erbyn yr ystad neu'r arwystl y cyfeiriwyd ato ym mhanel 3.<br><br>Printiwch yr enw llawn<br><br>1.<br><br>2.<br><br>3.<br><br>4. | Llofnod<br><br>1.<br><br>2.<br><br>3.<br><br>4. |

Cwblhewch y panel hwn dim ond os ydych wedi cwblhau dewis (D) ym mhanel 8. Os yw trawsgludwr yn cyflwyno'r cais, gall y trawsgludwr naill ai gwblhau panel 13 a gadael y panel hwn yn wag, neu gall drefnu i'r ceisydd gwblhau'r panel hwn.

Amlinellwch natur budd y ceisydd.

12 Mae'r ceisydd yn datgan bod budd digonol gan y ceisydd yn y cyfyngiad sy'n cael ei gofnodi yn y gofrestr.

Natur budd y ceisydd:

Nodwch o dan ba amgylchiadau y mae'r budd wedi codi.

Rhestrwch unrhyw ddogfennau ategol ym mhanel 5 neu ar Ffurflen AP1 neu DL (os cânt eu defnyddio).

Gweler y rhybuddion ar ddiwedd y ffurflen hon.

Manylion ynghylch sut yr oedd budd y ceisydd wedi codi:

Llofnod y ceisydd: ------------------------------------

Cwblhewch y panel hwn dim ond os ydych wedi cwblhau dewis (D) ym mhanel 8 ac mae trawsgludwr yn cyflwyno'r cais.

Amlinellwch natur budd y ceisydd.

13 Rwy'n tystio bod budd digonol gan y ceisydd yn y cyfyngiad sy'n cael ei gofnodi yn y gofrestr.

Natur budd y ceisydd:

Nodwch o dan ba amgylchiadau y mae'r budd wedi codi.

Rhestrwch unrhyw ddogfennau ategol ym mhanel 5 neu ar Ffurflen AP1 neu DL (os cânt eu defnyddio).

Gweler y rhybuddion ar ddiwedd y ffurflen hon.

Manylion ynghylch sut yr oedd budd y ceisydd wedi codi:

Llofnod y trawsgludwr: ------------------------------------

Enw llawn y trawsgludwr yw:

RHYBUDD

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

Mae adran 77 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn gosod dyletswydd i beidio â gwneud cais i gofnodi cyfyngiad heb achos rhesymol. Mae'n bosibl y bydd unrhyw un sy'n torri'r ddyletswydd hon yn gorfod talu iawndal i unrhyw un sy'n dioddef colled o ganlyniad.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 08/23